

Y Gwir Anrhydeddus Steve Barclay AS, Prif Ysgrifennydd y Trysorlys
Y Gwir Anrhydeddus Simon Hart AS, Ysgrifennydd Gwladol Cymru

16 Chwefror 2021

Annwyl Brif Ysgrifennydd ac Ysgrifennydd Gwladol

Ymchwiliad i weithredu Deddf Cymru 2014 a'r Fframwaith Cyllidol

Ysgrifennais at y ddau ohonoch yn ddiweddar i'ch hysbysu bod y Pwyllgor Cyllid wedi cyhoeddi ei adroddiad ar ei ymchwiliad i weithredu Deddf Cymru 2014 a'r Fframwaith Cyllidol.

Fel y gwyddoch, roedd y Pwyllgor wedi gobeithio cymryd tystiolaeth gennych chi'ch dau yn ystod ein hymchwiliad ond rydym yn gwerthfawrogi'r pwysau amser sydd arnoch chi o ystyried digwyddiadau cyllidol y DU bryd hynny. Ysgrifennais wedi hynny i'ch gwahodd i gyfarfod ar ôl i'n hadroddiad gael ei gyhoeddi ond cyn y ddadl yn y Cyfarfod Llawn a drefnwyd ar gyfer 24 Mawrth 2021.

Roedd y Pwyllgor yn siomedig iawn bod y Prif Ysgrifennydd wedi gwrthod y gwahoddiad pellach hwn. Rydym yn ddiolchgar i'r Ysgrifennydd Gwladol am gytuno i fod yn bresennol, ond deallaf na fyddwch ond yn barod i drafod materion sy'n ymwneud â Chronfa Ffyniant Gyffredin y DU a dim materion cyllidol gan mai cyfrifoldeb y Prif Ysgrifennydd yw'r rhain.

Mewn gohebiaeth flaenorol â chi'ch dau fe dynnais sylw at y ffaith bod Deddf Cymru 2014 yn ddarn sylfaenol o ddeddfwriaeth yn y setliad datganoli ac mae rôl Llywodraeth Cymru o ran cyflawni'n llwyddiannus yn gysylltiedig yn y bôn â Llywodraeth y DU. Mae ein hadroddiad yn nodi nifer o faterion lle mae angen gwybodaeth bellach gan Lywodraeth y DU ac mae'n hanfodol ein bod yn clywed gennych. Byddem yn barod i drefnu sesiwn ar y cyd i'r ddau ohonoch er mwyn ymdrin â materion sy'n dod o dan eich cyfrifoldebau neu i un ohonoch chi fod yn bresennol i ymdrin â phob agwedd ar ran Llywodraeth y DU. Mae eich tystiolaeth yn hanfodol i'r ymchwiliad, ac am y rheswm hwn mae'r Pwyllgor yn barod i gynnal sesiwn dystiolaeth y tu allan i'n slot cyfarfod arferol i gyd-fynd â phryd y byddwch ar gael.



Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN

 SeneddCyllid@senedd.cymru

 0300 200 6565

Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN

 SeneddFinance@senedd.wales

 0300 200 6565

Mae'r Pwyllgor yn teimlo'n gryf bod diffyg ymgysylltiad Llywodraeth y DU hyd yma wedi tanseilio gwerth y broses graffu. Am y rheswm hwn, anfonir copi o'r llythyr hwn at Lywydd y Senedd, o ystyried y goblygiadau cyfansoddiadol a'r cynsail y mae'n ei osod os nad ydych yn fodlon cymryd rhan yn y broses o graffu ar bwerau sy'n dod o fewn cylch gwaith Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru.

I sicrhau bod y mater hwn yn gallu symud ymlaen yn ddi-oed, byddai'n dda cael ymateb ffurfiol gennych erbyn 23 Chwefror 2021 fel y gallwn ni drefnu'r sesiwn hon cyn gynted â phosibl.

Yn gywir,



Llyr Gruffydd AS

Cadeirydd

CC: Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

Elin Jones AS, Llywydd y Senedd

